# Valleys Heritage Pioneers

## Tim's Trail

**Hello, I'm Tim – a Valleys Pioneer!**

*…one of the hundreds of thousands of people who came here in search of a better life during the Industrial Revolution. Driven from Ireland by near starvation, my family crossed the sea and headed here when I was just a boy. It seemed so full of promise!*

*To follow in my pioneering footsteps and see how my adventure turned out, why not follow my trail.*

*Visit the three sites below to meet me, as you follow my story…*

### Blaenavon (World Heritage Centre and/or Ironworks depending on opening hours) 1841 – Tim is about 8 years old

*I'm named after my dad! He is a big strong man, and one day I will be just like him. I've been working with him in the ironworks since we came over from Ireland last year. Me and my little brother, Tom both work here – but he is not as strong as I am. He gets tired quick and he gets a pain in his belly. Dad calls it a "rupture" and has made him a special belt to keep him going. Tom works fine now, although he's still not as fast as me. We push the dandies (barrows full of limestone and ore) back and forwards all day. My dad says that we are a big help to him and it means more money for the family.*

### Fourteen Locks 1865 – Tim is around 32 years old

*A new beginning for me and my beautiful bride! This new job means that I can be out of that godforsaken ironworks and never return. Why? Because you are now being addressed by one*

*of the official hands to the caretaker of the Monmouthshire Canal system.*

*A fantastic canal system we have – 14 locks in this stretch alone, to help haul good and materials up and down the steep incline from here to Newport. The canals are not what they were, mind! It's all going over to rail now, and those fancy steam locomotives. Its hard work and the hours are still long but they are hours spent in the fresh air, and for that I am forever grateful.*

## Ebbw Vale Ironworks (now General Offices) 1875 – Tim is about 42 Years old

*I thought I'd left the ironworks behind, and yet here I am back working in the thick of it. Still, this is an exciting era! This works is owned by the new Ebbw Vale Steel, Iron and Coal Company and it has had plenty of investment put in to it. We've got the most powerful blowing engine in the world serving four of our fiery furnaces, plus new rolling mills and a Bessemer converter – so we can produce great quality steel.*

**What happened next???**

Why not make up your own end to Tim's story – did he travel down the valley to mining towns like Six Bells? Did he ever get over to Tredegar and see the big house at Bedwellty Park? Did he travel further south to the historic port of Newport? Or travel on the canal network to Goytre Wharf? There are loads more sites to inspire your version of events – take a look at our list. Just make sure you check opening times before setting out!

Send us your images and storylines via Facebook (The Valleys That Changed The World) or Twitter @TVTCTW.

**Enjoyed this trail? Download more at** www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers

*Please note, Tim is a fictional character but the sites and events mentioned in his story are real.*

# Arloeswyr Treftadaeth y Cymoedd

## Llwybr Tim

**Helo, Tim ydw i – un o Arloeswyr y Cymoedd!**

*…dw i'n un o gannoedd o filoedd o bobl a ddaeth yma yn ystod y Chwyldro Diwydiannol i chwilio am fywyd gwell. Roedd yn rhaid i mi a'r teulu adael Iwerddon am ein bod bron â llwgu, a chroesi'r môr i ddod yma pan oeddwn yn fachgen bach. Roeddem yn disgwyl pethau mawr o'r lle!*

*I gerdded yn fy esgidiau arloesol innau a gweld sut antur gefais i, beth am ddilyn fy llwybr? Cewch gwrdd â mi os ewch i'r tri safle isod a dilyn fy stori…*

### Blaenafon (Canolfan Treftadaeth y Byd a/neu Waith Haearn, yn dibynnu ar yr oriau agor) yn 1841 – mae Tim tua 8 mlwydd oed

*Cefais yr un enw â nhad! Mae'n ddyn mawr cryf ac, un diwrnod, byddaf yn union yr un fath ag ef. Rwyf wedi bod yn gweithio gyda nhad yn y gwaith haearn ers i ni ddod draw o Iwerddon y llynedd. Rydw i a mrawd bach Tom yn gweithio yma – ond dydy Tom ddim mor gryf â fi. Mae'n blino'n gyflym ac yn cael poen yn ei stumog. Mae nhad yn ei alw'n "dorgest" ac mae wedi gwneud belt arbennig iddo i'w helpu. Mae Tom yn gweithio'n iawn erbyn hyn, er nad yw mor gyflym â fi. Rydym yn gwthio'r dandïaid (troliau'n llawn o galchfaen a mwyn) yn ôl ac ymlaen drwy'r dydd. Mae nhad yn dweud ein bod o gymorth mawr iddo ac yn dod â mwy o arian i mewn i'r tŷ.*

### Fourteen Locks yn 1865 – mae Tim oddeutu 32 mlwydd oed

*Dechrau newydd i mi a'm gwraig brydferth! Mae'r swydd newydd yma'n golygu y gallaf adael y gwaith haearn uffernol hwnnw a pheidio dychwelyd byth. Pam? Am fy mod i erbyn hyn yn*

*un o'r cynorthwywyr swyddogol i ofalwr system Gamlas Mynwy.*

*Mae gennym system wych o gamlesi – rhes o 14 loc yn y darn yma yn unig, i helpu i halio deunyddiau a nwyddau i fyny ac i lawr yr allt serth o'r fan yma i Gasnewydd. Dydy'r camlesi ddim fel oedden nhw cofiwch! Mae popeth yn symud ar y rheilffordd erbyn hyn, yn y locomotifau stêm ffansi. Mae'n waith caled a'r oriau'n hir ond maen nhw'n oriau yn yr awyr agored, ac am hynny rwy'n ddiolchgar iawn.*

## Gweithfeydd Glyn Ebwy (sef y Swyddfeydd Cyffredinol erbyn hyn) yn 1875 – mae Tim oddeutu 42 mlwydd oed

*Roeddwn i'n meddwl mod i wedi gadael y gwaith haearn ac wedi symud ymlaen, ac eto dyma fi yn ôl yn gweithio yn ei chanol hi. Eto, mae hwn yn oes gyffrous iawn! Mae cwmni newydd yn berchen ar y gweithiau yma erbyn hyn, Cwmni Dur, Haearn a Glo Glyn Ebwy ac maent wedi buddsoddi digonedd o arian ynddo. Mae gennym y peiriant chwythu mwyaf pwerus yn y byd yn gwasanaethu pedwar o'n ffwrneisi tanllyd, ynghyd â melinau rholio a thrawsnewidydd Bessemer – felly gallwn gynhyrchu dur o safon uchel iawn.*

**Beth ddigwyddodd nesaf???**

Beth am ysgrifennu eich diweddglo eich hun i stori Tim? A deithiodd i lawr y cwm i drefi glofaol megis Six Bells? A gafodd yr amser i ymweld â Thredegar a gweld y tŷ mawr ym Mharc Bedwellte? A lwyddodd i deithio ymhellach i'r de i borthladd hanesyddol Casnewydd? Neu deithio ar y rhwydwaith o gamlesi i Lanfa Goetre? Mae llwyth o safleoedd eraill i ysbrydoli eich fersiwn chi o'r hanes – edrychwch ar ein rhestr. Cofiwch edrych ar yr amseroedd agor cyn mynd!

Anfonwch eich lluniau a'ch straeon atom ar Facebook (Y Cymoedd a Newidiodd y Byd) neu ar Twitter @TVTCTW.

**Wedi mwynhau'r llwybr yma? Lawrlwythwch fwy ar www.visitblaenavon.co.uk/TVTCTW/Pioneers**

*Nodwch, mae Tim yn gymeriad dychmygol ond mae'r lleoliadau a'r digwyddiadau sydd yn ei stori yn rhai go iawn.*